




Llwybr Datblygu'r Gymraeg 2021-22



Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydd.ac.uk

Darlith 9 a 10
Dydd Mawrth 7^{fed} o
Ragfyr 2021



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG



Nod y ddarlith


- edrych ar y berthynas rhwng agos sydd rhwng sgiliau ysgrifennu a darllen a thrafod syniadau ar gyfer y dosbarth
- adolygu rheolau iaith y tymor
- casglu tystiolaeth ar gyfer y portffolio.

Datblygu sgiliau ysgrifennu yn yr
ystafell ddosbarth

<https://hwb.gov.wales/api/storage/8d60d62a-6a18-4b83-8a29-95aef6b61eac/canllaw-ar-addysgu-sgiliau-ysgrifennu.pdf>



Defnyddir yr un system gan awduron effeithiol wrth iddyn nhw gyfansoddi testunau. Gyda'i gilydd, mae'r tri chiw'n cwmpasu gwybodaeth flaenorol dysgwr ac mae dysgwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth iddyn nhw ysgrifennu.



Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn cael cyfleoedd pan y byddan nhw'n ifanc iawn i gynyddu'r wybodaeth a'r sgiliau o fewn pob ciw os ydyn nhw am ysgrifennu'n effeithiol. Mae hyn yn golygu bod angen i athrawon (a rhieni/gofalwyr) ddarparu cyfleoedd iddyn nhw:

- ehangu eu gwybodaeth am bynciau, pobl, lleoedd a syniadau trwy holi a thrafod, darllen amrywiaeth mor eang â phosibl o destunau, cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol megis chwarae rhan a defnyddio TGCh, a sicrhau eu bod yn cael amrywiaeth gynyddol o brofiadau y tu allan i'r ysgol
- datblygu eu geirfa
- datblygu eu dealltwriaeth o ramadeg
- deall sut mae paragraffau'n tueddu i gael eu trefnu mewn gwahanol fathau o ysgrifennu
- canolbwyntio ar nodweddion ieithyddol gwahanol fathau o ysgrifennu/testun
- deall geiriau a rhannau o eiriau
- archwilio'r berthynas rhwng synau a symbolau'r wyddor ynghyd â datblygu strategaethau i wella eu sillafu.

Syniadau



gosod cyd-destun clir

ysgrifennu ar y cyd
/ dan arweiniad

Rhoi cyfle i drafod ac
esbonio

hunangywiro / ail
edrych ar y ffocws
iaith

darllen / rhoi adborth ar
waith cyfoedion

adnabod meini prawf
llwyddiant / sgaffaldio
addas

edrych ar
ramadeg /
roi ffocws
iaith benodol

rhoi cyfle i
uwchlefelu (ail
ddrafftio)

'Safonau ysgrifennu dysgwyr mewn llawer o ysgolion cynradd yw'r gwannaf o'r pedair medr iaith (sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu) o hyd'

<https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/darllen-rhwng-y-llinellau-sgiliau-llythrennedd-plant-cymru/>

Perthynas rhwng darllen ac ysgrifennu

Mae perthynas agos rhwng darllen ac ysgrifennu ac mae cysylltiad agos rhwng hyfedredd person fel darllenwr a'i allu fel ysgrifennwr.

Pam cysylltu darllen ac ysgrifennu?

Am mai dwy wedd ar yr un peth ydyn nhw. Mae darllen i ysgrifennu fel y mae gwranddo i siarad.


Trwy gyflwyno testunau safonol ac amrywiol, (gan gynnwys enghreifftiau o waith y dysgwyr) fel modelau o ysgrifennu effeithiol, a'u cyd-ddarllen, gellir datblygu'r ysgrifennwyr gwan ac ymestyn yr ysgrifennwyr hyderus.

Wrth gyflwyno testunau gweladwy i bawb, gellir tynnu sylw at nodweddion arbennig er mwyn datblygu gallu'r plant i ysgrifennu. Gellir cynyddu a chyfoethogi 'repertoire' geiriau, brawddegau, a syniadau creadigol y plant.


<http://resources.hwb.wales.gov.uk/VTC/cynnal/Athrawon/canllawiau/cyd-ddar.htm#Darllen%20ac%20Ysgrifennu>

Pa mor dda yw sgiliau darllen pobl ifanc 15 oed yng Nghymru?


Darllen



Mathemateg



Gwyddoniaeth



'O ran darllen, perfformiodd merched Cymru yn well na'r bechgyn, fel ym mhob gwlad arall a gymerodd ran. Yng Nghymru, roedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol, yn wahanol i'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn mathemateg a gwyddoniaeth.'

<https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/darllen-rhwng-y-llinellau-sgiliau-llythrennedd-plant-cymru/>

Syniadau

Strategaethau i godi lefalu
darllen yn y dosbarth



Darllen yn y dosbarth



Darllen ar y cyd.

Darllen mewn parau.

Darllen dan arweiniad.

Cyfleoedd i drafod /
rhagdybio.

Strategaethau darllen



Defnyddio'r
lluniau
i gael cliw.



Dweud synau'r
llythrennau
a'u clymu.



Chwilio am eiriau
bach sy'n cuddio
yn y geiriau
mawr.



Torri'r gair i
sillafau.



Defnyddio'r
atalnodi i helpu
darllen yn
ystyrlon.



Ail-ddarllen os
nad ydych yn
deall.



Darllen ymlaen i
geisio gwneud
synnwyr o'r gair.



Gwrando ar y
geiriau wrth i chi
eu darllen.



Edrych i weld os
yw'r gair yn
debyg i un arall yr
ydych yn ei
wybod.



Dychmygu beth
sy'n digwydd.



Gofyn cwestiwn a
fydd yn helpu os
nad ydych yn
deall.



Adnabod eich
camgymeriadau
a'u cywiro.


Fframwaith Cymwyseddau i Athrawon – Darllen

Uwch	Gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion. Gallu darllen straeon yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir.	Darllen a dehongli testun ar goedd yn hyderus, trafod cynnwys a chyfeirio at dermau yn ddeallus. Defnyddio nodiadau'n effeithiol er mwyn llywio'r wers.
Hyfedredd	Gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus. Gallu darllen straeon i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon.	Darllen ar goedd yn naturiol ac eglur, dadansoddi testunau a'u his-destunau gan ymateb a chyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol. Defnyddio unrhyw nodiadau'n effeithiol iawn er mwyn llywio'r wers.

Tystiolaeth ar gyfer y portffolio

Uwch	Hyfedredd
Aseiniad academaidd â ffynonellau (mwy nag un yn unig) Cymraeg. Recordiad yn darllen rhan o nofel Gymraeg ac yn trafod y testun yn drylwyr mewn grŵp e.e Clwb Darllen, neu'n trafod y cymeriad/au	Aseiniad academaidd ag <u>amrywiaeth</u> o ffynonellau Cymraeg Recordiad yn darllen rhan o nofel Gymraeg ac yn dadansoddi'r testun yn estynedig mewn grŵp e.e Clwb Darllen.

Tasg - Darllenwch dudalen o'r llyfr gan anodi pob pwynt gramadegol rydych chi'n gweld. Cofiwch ysgrifennu'r rheolau gramadegol hefyd.



Adolygu



Rydw i'n dysgu ym mlwyddyn 5 mewn ysgol yng <u>Nghaerffili</u> . PAM?	Mae plant blwyddyn 5 yn <u>plant</u> da. Maen nhw'n <u>dawel</u> ac yn <u>frwdfrydig</u> . PAM?	Merch dda Ysgol Gymraeg Gwers ddiddorol PAM?	un gwningen un gath un falwoden OND un <u>gi</u> PAM?	Dau <u>gi</u> a dwy gath Dau <u>lyfr</u> a dwy <u>wers</u> PAM?
ar <u>ddiwedd</u> y wers Croeso i <u>ddosbarth</u> Mr Puw PAM?	te a <u>choffi</u> PAM?	<u>Weloch</u> chi'r gêm rygbi? PAM?	<u>Fwytais</u> i ddim siocled. <u>Ddarllenais</u> i ddim llyfr. PAM?	<u>Phrynais</u> i ddim siocled. <u>Thalais</u> i ddim. <u>Chanais</u> i ddim. PAM?
Rhaid i chi <u>fynd</u> Ga i <u>fynd</u> ? PAM?	y <u>wers</u> y <u>ferch</u> y <u>gadair</u> ond y <u>bwrdd</u> PAM?	Mae fy <u>nghar</u> i yn y garej. Mae fy <u>nhŷ</u> i yn anferth. PAM?	Mae dy <u>gar</u> yn y garej Mae dy <u>dŷ</u> di yn anferth! PAM?	Mae ei <u>lyfr</u> e ar y bwrdd. Mae ei <u>wersi</u> e'n ardderchog. PAM?
Mae ei <u>llyfr</u> hi ar y bwrdd OND Mae ei <u>phensiliau</u> ar y bwrdd. PAM?	ei <u>hysgol</u> hi ond ei <u>ysgol</u> e PAM?	Pa <u>liw</u> ydy ffrog Siw? PAM?	Beth <u>wylioch</u> chi ar y teledu neithiwr? PAM?	Helo bawb! Bore da blant! Hwyl fawr blant! PAM?
Y bwrdd <u>hwn</u> / y wers <u>hon</u> / y plant <u>hyn</u> PAM?	banana <u>ac</u> oren <u>a</u> mefus <u>ac</u> afal PAM?	Y bachgen Yr eliffant Mae'r eliffant yn llwyd PAM?	Y <u>ferch</u> ond y llygoden Yn <u>dda</u> ond yn lliwgar un <u>gath</u> ond un llygoden PAM?	Mae'r plant yn <u>dda</u> ond Mae'r plant yn <u>dawnsio</u> PAM?

Cwis Rheolau Iaith y Tymor!



Amser i baratoi a chasglu tystiolaeth ar gyfer eich portffolio.



Testun Trafod:
Cwricwlwm Newydd i Gymru
Y daith i 2022



Cyflwyniad a chefnidir i'r newidiadau
Cyfleoedd Newydd
Heriau
Gwaith cynllunio a pharatoi
Profiadau personol

Deunydd darllen

Unrhyw ddogfennau ac adroddiadau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac Estyn

Cwricwlwm i Gymru Y daith i 2022

<https://hwb.gov.wales/api/storage/9da091a5-db8b-4202-b79e-af1f336e4c25/cwricwlwm-i-gymru-y-daith-i-2022.pdf>

Blog Cwricwlwm i Gymru

<https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/>

Dogfennau'r Llywodraeth

<https://llyw.cymru/paratoi-ar-gyfer-y-cwricwlwm-newydd>

<https://llyw.cymru/deddf-cwricwlwm-ac-asesu-cymru>

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/adroddiad-ar-ymatebion-i%E2%80%99r-sgwrs-fawr.pdf>

Adroddiadau Themtig Estyn

Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd

www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Curriculum%20innovation%20in%20primary%20schools%20-%20cy.pdf

Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

<https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Preparing%20for%20the%20Curriculum%20for%20Wales%20cy.pdf>

Deunydd Gwranddo

Podlediad (Dystiolaeth o sgiliua gwranddo) : Ymateb i Bodlediad Y Gweinidog

<https://open.spotify.com/episode/4YHwG4pjO4QTRiEm76ddZA>



Manteisiwch ar bob cyfle.
Dymuniadau gorau i chi a chadwch yn ddiogel.